TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 3 Opsiwn 3.6

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys


Cyflwyniad....1
- Nodau'r Canllawiau Addysgu....1
- Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:....1

Strwythur y cymhwyster....2

Asesu....3
- Crynodeb o'r Asesu....3

Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau....3

Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.6....4
- Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.6 Modern: Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau, tua 1880 - tua 1980....5

Profiadau Dysgu....18

Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru....19

Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 3.6 Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau, tua 1880 - tua 1980....25


© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

## Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

## Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â’r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair  uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn dysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu

| **Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**<br>***Arholiad ysgrifenedig*: 1 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br><br>60 marc |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.<br><br>**Yr Oesoedd Canol**<br>**3.1** Y Llychlynwyr tua 750 - tua 1066<br>**3.2** Y Croesgadau tua 1095 - tua 1291<br>**Modern Cynnar**<br>**3.3** Ymerodraeth Songhai tua 1464 - tua 1591<br>**3.4** Yr Ymerodraeth Mughal tua 1526 - tua 1707<br>**Modern**<br>**3.5** Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 - tua 1953<br>**3.6** Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau tua 1880 - tua 1980<br><br>Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. |

## Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.6

**Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**
(30% o'r cymhwyster)

Diben Uned 3 yw rhoi cipolwg ar gyfnod hanesyddol estynedig gan alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau allweddol.  Nod yr opsiwn hwn yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r modd y newidiodd ac y datblygodd cymdeithas yr Unol Daleithiau yn ystod y cyfnod rhwng tua 1880 a tua 1980.

| Cyfnod amser | Opsiwn 3.6 | |
|---|---|---|
| Modern | 3.6 | Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau, tua 1880 - tua 1980 |
| | 3.6.1 | Hil a mewnfudo |
| | 3.6.2 | Y '20au gwyllt |
| | 3.6.3 | Diwedd ffyniant |
| | 3.6.4 | Hawliau Sifil tua 1945-tua 1968 |
| | 3.6.5 | Ail Don Ffeministiaeth tua 1960 - tua 1980 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.6 Modern: Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau, tua 1880 - tua 1980

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| 3.6 Cefndir: yr Unol Daleithiau ar droad yr ugeinfed ganrif<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • llywodraethiant yr Unol Daleithiau ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, y Cyfansoddiad Ffederal, Hawliau'r Taleithiau, y prif ideolegau gwleidyddol yn yr Unol Daleithiau. | Y Cyfansoddiad Ffederal a gwahanu pwerau.<br><br>Prif feysydd sydd wedi'u datganoli i awdurdod y taleithiau.<br><br>Y Bedwaredd System Pleidiau 1896-1932, gwleidyddiaeth yn y “Cyfnod Blaengar”. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch restr yn dangos grymoedd perthynol llywodraeth ffederal a llywodraethau taleithiau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut oedd y llywodraeth ffederal a phwerau taleithiau yn gweithio a'r gwahaniaethau rhwng y Pleidiau.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Nodwch ac esboniwch enghraifft bwysig o:<br>• gweithred Arlywyddol<br>• penderfyniad y Goruchaf lys. | **Gwefan(nau):**<br>Diagram of US Constitution key features v1 \| Quizlet<br><br>The Progressive Era \| Key Facts \| Britannica | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd grymoedd Arlywyddol a phwysigrwydd Rheithfarnau'r Goruchaf Lys gydag enghreifftiau. | | |
| • effaith anghydraddoldebau yn yr Unol Daleithiau ar ddechrau'r cyfnod, yn ymwneud â chaethwasiaeth, hil, rhyw a phrofiadau Pobl Frodorol a mewnfudwyr. | Gwrthwynebiad y de i Hawliau Sifil Americanwyr Affricanaidd.<br><br>Hawliau menywod priod o ran y gyfraith a pherchenogaeth eiddo - Deddf Pleidleisio 1920.<br><br>Adleoli Pobloedd Frodorol ac effaith mewnfudo arnynt (Tir).<br><br>Hiliaeth wrth dderbyn mewnfudwyr a senoffobia a gyfeiriwyd yn eu herbyn. | **Gweithgaredd:**<br>Mewn grwpiau, trafodwch gwestiynau allweddol fel: *Beth arweiniodd at wrthwynebiad y De at Hawliau Dynol?* neu *Sut wnaeth prosesau adleoli a orfodwyd effeithi ar gymunedau brodorol?*<br><br>Lluniwch fapiau gweledol yn cysylltu themâu fel gwrthwynebiad, gorthrwm a chynnydd ar draws yr holl bynciau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y gwrthwynebiad i Hawliau Dynol yn enwedig yn y De - graddau a chyfyngiadau hawliau menywod, adleoliadau a orfodwyd "Americanwyr Brodorol" a natur gelyniaeth i fewnfudwyr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Esboniwch arwyddocâd digwyddiad neu ddatblygiad penodol ym mhob agwedd ar anghydraddoldeb.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd/pwysigrwydd y materion hyn ar wleidyddiaeth a chymdeithas gydag enghreifftiau. | **Gwefan(nau):**<br>Native American \| Immigration and Relocation in U.S. History \| Classroom Materials at the Library of Congress \| Library of Congress<br><br>Native American reservations and relocation<br><br>Xenophobia: Understanding Discrimination Against Immigrants<br><br>Xenophobia Powers the United States - Public Books<br><br>19th Amendment to the U.S. Constitution: Women's Right to Vote (1920) \| National Archives | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.6.1 Hil a mewnfudo | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • gwaddol caethwasiaeth, gan gynnwys:<br>◦ effaith cyfreithiau Jim Crow a phrofiadau Americanwyr Affricanaidd yn nhaleithiau'r gogledd<br>◦ gweithgareddau'r Ku Klux Klan. | Natur a maint Cyfreithiau Jim Crow.<br><br>Gwahaniaethu yn erbyn Americanwyr Affricanaidd o ran tai, addysg a chyflogaeth yn y Gogledd.<br><br>Trais a brawychu'r Ku Klux Klan.<br><br>Ymdrechion cynnar gan Americanwyr Affricanaidd i wrthdroi gwahaniaethu. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch restr o arferion gwahaniaethol yn:<br>• y De<br>• y Gogledd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut y targedodd cyfreithiau Jim Crow Americanwyr Affricanaidd a pham roedd y sefyllfa yn dal i fod yn anghyfartal y tu allan i'r De.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch effaith y Gymdeithas Genedlaethol dros Ddatblygu Hawliau Pobl Groenliw (NAACP) yn 1909.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am gryfderau a chyfyngiadau gwrthwynebiad Americanwyr Affricanaidd i wahaniaethu neu i'w liniaru. | **Gwefan(nau):**<br>Jim Crow Laws: Definition, Facts & Timeline \| HISTORY<br><br>Organisation and methods of the Ku Klux Klan - Separate but equal policy to 1939 - BBC Bitesize<br><br>National Association for the Advancement of Colored People (NAACP) \| History \| Britannica<br><br>https://www.history.com/topics/black-history/civil-rights-movement-timeline | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • y driniaeth a roddwyd i Bobl Frodorol, gan gynnwys:<br>• “Cymathu" ac effaith Ysgolion Preswyl "Indiaidd"<br>• Deddf Dinasyddiaeth yr Indiaid 1924 a mater parhaus hawliau pleidleisio Pobl Frodorol mewn gwahanol daleithiau. | Cymathu gorfodol plant yn yr ysgolion preswyl.<br><br>Dileu diwylliant “Indiaidd” yn yr ysgolion.<br><br>Ymrestru “Americanwyr Brodorol” yn y Rhyfel Byd Cyntaf a phenderfyniad Wilson i roi dinasyddiaeth.<br><br>Hawliau pleidleisio a Deddf 1924 a gwrthwynebiad taleithiau.<br><br>“Cytundeb Indiaid Newydd” Roosevelt yn 1934. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser o ddatblygiadau negyddol a chadarnhaol yn y driniaeth o Bobloedd Frodorol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall diben ac effaith yr “Ysgolion Indiaidd” a'r ffaith bod Pobloedd Frodorol wedi'u heithrio rhag cael hawliau gwleidyddol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch ddiagram corryn yn dangos sut y gwrthwynebwyd Deddf 1924 mewn rhai taleithiau.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd Deddf 1924 a'r broses o'i rhoi ar waith. | **Fideo(s):**<br>History of Native Americans<br><br>Utah History \| Unspoken: America's Native American Boarding Schools \| PBS<br><br>**Gwefan(nau)**<br>How Boarding Schools Tried to ‘Kill the Indian’ Through Assimilation \| HISTORY<br><br>Native American Voting Rights \| Voters and Voting Rights \| Library of Congress<br><br>Indian Citizenship Act of 1924<br><br>Indian Reorganization Act is signed into law \| June 18, 1934 \| HISTORY<br><br>What Was FDR's 'Indian New Deal'? | 2 awr |
| • brofiadau cymunedau o fewnfudwyr, gan gynnwys: | Natur a maint mewnfudo: | **Gweithgaredd:** | **Gwefan(nau):** | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effaith "Mewnfudo Newydd" rhwng tua 1880 a'r Rhyfel Byd Cyntaf<br>• effaith cyfyngiadau ar ôl y rhyfel fel Fformiwla Tarddiad Cenedlaethol 1921 a Deddf Mewnfudo 1924. | Almaenwyr/Gwyddelod/Iddewon/Eidalwyr/pobl nad ydynt yn Ewropeaidd.<br><br>Hiliaeth, senoffobia a homoffobia mewn cyfyngiadau: Deddf Mewnfudo 1917, Deddf Cwota Brys 1921 a chwmpas ac effaith Deddf Johnson-Reed 1924. | Mewn grwpiau bach, canolbwyntiwch ar brofiadau un grŵp o fewnfudwyr ac adroddwch y canfyddiadau i'r dosbarth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall graddau mewnfudo a'r ardaloedd gwasgaru allweddol a nodi pam y datblygodd gelyniaeth.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Nodwch ac esboniwch agweddau penodol ar wahaniaethu.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd/pwysigrwydd gwahaniaethu mewn cyfreithiau mewnfudo. | A Nation of Immigrants: The United States, 1900-1929<br><br>Restricting entry - Immigration - WJEC - GCSE History Revision - WJEC - BBC Bitesize<br><br>Immigration Act of 1917 (Barred Zone Act) - Immigration History<br><br>On Feb 05, 1917: Immigration Act of 1917 Bans Asians, Other Non-White People from Entering U.S.<br><br>United States Immigration and Refugee Law, 1921-1980 \| Holocaust Encyclopedia | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.6.2 Y '20au gwyllt | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • pam roedd economi'r Unol Daleithiau'n ffynnu yn yr 1920au, gan gynnwys:<br>• ei hadnoddau naturiol, effaith economaidd y Rhyfel Byd Cyntaf, masgynhyrchu a'r car, polisïau'r Arlywyddion Gweriniaethol<br>• pam nad oedd rhai grwpiau gan gynnwys ffermwyr a "hen" ddiwydiannau yn elwa o'r ffyniant economaidd. | Gwaddol economaidd y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys y problemau dilynol ar gyfer ffermio.<br><br>Polisïau'r Gweriniaethwyr: laissez-faire domestig, tariffau amddiffynnol ac "ymddiriedolaethau".<br><br>Effaith mecaneiddio mewn amaethyddiaeth a'r dirwasgiad amaethyddol. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch siart llif yn dangos achosion ffyniant economaidd y 1920au.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y prif resymau pam yr effeithiodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar economi'r Unol Daleithiau.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch restr o ffactorau yn nhrefn eu pwysigrwydd gan ddangos sut y gwnaethant effeithio ar yr economi.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am y ffactorau a lywiodd yr economi yn y 1920au. | **Gwefan(nau):**<br>Economic Boom in the 1920's: Causes \| Schoolshistory.org.uk<br><br>**Fideo(s):**<br>The Roaring 20's: Crash Course US History | 2.5 awr |
| • sut y datblygodd adloniant poblogaidd, gan gynnwys:<br>• y radio, y teledu a'r sinema<br>• diwylliant y speakeasy a'r Oes Jazz. | Effeithiau cymdeithasol a gwleidyddol datblygiadau mewn adloniant poblogaidd, sensoriaeth ac agweddau cymdeithasol. | **Gweithgaredd:**<br>Nodwch pam y cafodd gwaharddiad effaith benodol ar ddiwylliant poblogaidd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y prif ddatblygiadau mewn diwylliant poblogaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:** | **Gwefan(nau):**<br>Popular entertainment - BBC Bitesize<br><br>The USA: A Nation of Contrasts overview - BBC Bitesize<br><br>The USA: A Nation of Contrasts, 1910-1929 | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Effaith gwaharddiad a gwrthwynebu gwaharddiad ar ddiwylliant poblogaidd. | Asesu pwysigrwydd perthynol adloniant o gymharu â gwaharddiad.<br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch arwyddocâd ehangach ffactorau gwahanol, fel Jazz a theledu. | | |
| • sut y datblygodd Dadeni Harlem, gan gynnwys:<br>  • 2 filiwn o Americanwyr Affricanaidd ym mudo o'r De i'r Gogledd yn ystod Y Mudo Mawr<br>  • artistiaid Americanaidd Affricanaidd enwog gan gynnwys Louis Armstrong, Duke Ellington a Bessie Smith. | Natur a chwmpas y "Mudiad Negro Newydd" mewn celfyddydau, ffasiwn, addysg a gwleidyddiaeth.<br><br>Y rhesymau dros y Mudo Mawr.<br><br>Graddau dylanwad y Dadeni y tu allan i'w ganolfan yn Harlem. | **Gweithgaredd:**<br>Nodwch ac esboniwch effaith rhai unigolion nodedig, fel Armstrong, Ellington a Smith.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y rhesymau dros y mudo a phrif gyflawniad artistig Americanwyr Affricanaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Esboniwch sut a pham y cafodd Dadeni Harlem effaith ehangach y tu hwnt i Efrog Newydd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd datblygiadau penodol, fel mudo ac arloesedd artistig. | **Fideo(s):**<br>American Experience: The Great Migration<br><br>**Erthygl(au):**<br>The Power of Poetry: The New Negro Renaissance to the Black Arts Movement \| National Museum of African American History and Culture<br><br>Harlem Renaissance - Definition, Artists & How It Started \| HISTORY<br><br>**Podlediad(au):**<br>Harlem Is Everywhere: Episode 1, The New Negro - The Metropolitan Museum of Art | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.6.3 Diwedd ffyniant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • achosion tymor hir y dirwasgiad economaidd, gan gynnwys:<br>• gorgynhyrchu a gostyngiad yn y galw gan ddefnyddwyr<br>• polisïau diffyniaeth y Gweriniaethwyr. | Sut yr effeithiodd diffyg rheoleiddio ym myd bancio ar yr economi.<br><br>Effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar gynhyrchiant.<br><br>Effaith adfer tariffau diogelu economaidd uchel ar ôl y rhyfel. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser yn dangos datblygiadau economaidd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y prif ffactorau hirdymor a arweiniodd at y dirwasgiad.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch siart llif yn dangos achos a chanlyniad y ffactorau a arweiniodd at y dirwasgiad.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd a phwysigrwydd achosion hirdymor o'r dirwasgiad economaidd. | **Gwefan(nau):**<br>The Great Depression: Overview, Causes, and Effects<br><br>**Fideo(s):**<br>FDR's First Fireside Chat Amid Banking Crisis<br><br>Mass Production and Advertising in the 1920s | 1.5 awr |
| • achosion tymor byr y dirwasgiad economaidd, gan gynnwys:<br>• dirlawnder a hapfasnach y farchnad stoc<br>• gwerthu mewn panig, Dydd Iau Du a Chwymp Wall Street. | Achosion ac effeithiau chwyddiant mewn prisiau cyfranddaliadau.<br><br>Natur anghyson prisiau cyfranddaliadau sy'n gostwng - y “Babson Break”. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch siart llif o'r digwyddiadau a arweiniodd at Gwymp Wall Street.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y prif resymau pam y digwyddodd Cwymp Wall Street.<br><br>**Gweithgaredd uwch:** | **Fideo(s):**<br>Understanding the Wall Street Crash of 1929<br><br>The 1929 Stock Market Crash: Black Thursday<br><br>**Gwefan(nau):** | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Esboniwch pam yr oedd digwyddiadau penodol yn arwyddocaol ac aseswch eu pwysigrwydd cymharol.<br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd ffactorau gwahanol, fel diffyg rheoleiddio a "Babson". | What Was the Stock Market Crash of 1929? Definition, Causes & Outcomes - TheStreet | |
| • effaith y dirwasgiad a Bargen Newydd Franklin D Roosevelt, gan gynnwys:<br>  • cau banciau, Hoovervilles, diweithdra ac amhoblogrwydd Hoover<br>  • etholiad 1932 a Chytundeb Newydd FDR. | Effaith gymdeithasol ac economaidd Cwymp Wall Street.<br><br>Etholiad Franklin D Roosevelt a'r "100 diwrnod" cyntaf.<br><br>Natur a maint y "Cytundeb Newydd" a'i effaith. | **Gweithgaredd:**<br>Esboniwch sut y lledaenodd Hoovervilles a disgrifiwch brofiad y bobl a oedd yn byw ynddynt, gan gyfeirio at enghreifftiau mwy adnabyddus fel Anacostia a St Louis (cafodd yr ail ei integreiddio'n hiliol).<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith gymdeithasol y dirwasgiad.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Esboniwch y nodau ac aseswch effaith y Cytundeb Newydd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd Etholiad 1932. | **Fideo(s):**<br>The Great Depression, 1931–1940, inside the Hoovervilles<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Hoovervilles in the '30s: Amazing Vintage Photos That Capture Everyday Life in the Shanty Towns During the Great Depression - Vintage Everyday<br><br>Largest U.S. Hooverville Had Its Own Mayor and a Church Made of Orange Crates<br><br>New Deal I: FDR's First 100 Days | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.6.4 Hawliau Sifil tua 1945 - tua 1968 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • effaith yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys cyfraniad Americanwyr Affricanaidd, ar Hawliau Sifil, gan gynnwys:<br>• profiadau tramor y milwyr Americanaidd Affricanaidd gwrywaidd a benywaidd oedd yn dychwelyd<br>• Truman yn dadwahanu'r lluoedd arfog. | Ymgyrch "Double V".<br><br>Arwahanu a thrin Americanwyr Affricanaidd yn wael yn y lluoedd arfog - effaith unedau fel Awyrenwyr Tuskegee.<br><br>Effaith Gorchymyn Gweithredol 9981 a'r gwrthwynebiad iddo. | **Gweithgaredd:**<br>Mewn grwpiau bach, esboniwch effaith y datblygiadau gwahanol sy'n gysylltiedig â'r Ail Ryfel Byd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut yr effeithiodd yr Ail Ryfel Byd ar Hawliau Sifil mewn ffyrdd gwahanol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch bwysigrwydd cymharol y datblygiadau hyn wrth ddatblygu Hawliau Dynol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am effaith y datblygiadau amrywiol. | **Fideo(s):**<br>The Double V Campaign of World War II<br><br>**Gwefan(nau):**<br>How Tuskegee Airmen Fought Military Segregation With Nonviolent Action \| HISTORY<br><br>Executive Order 9981 to Desegregate the Armed Forces \| DocsTeach | 2 awr |
| • sut y datblygodd Hawliau Sifil rhwng 1953 a 1968, gan gynnwys:<br>• effaith a chanlyniadau Brown vs Topeka<br>• arwyddocâd y Gorymdeithio ar Washington, 1963. | Tarddiad Brown v. Topeka a Dyfarniad y Goruchaf Lys - goresgyn gwrthwynebiad i'r rheithfarn.<br><br>Graddau'r cydymdeimlad ar gyfer araith y Brenin a'r effaith ar | **Gweithgaredd:**<br>Adeiladwch linell amser o ddigwyddiadau gan dangos pam yr oedd pob datblygiad yn bwysig.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall datblygiadau allweddol yn y cyfnod hwn.<br><br>**Gweithgaredd uwch:** | **Fideo(s):**<br>The 1963 March on Washington - USA (1918-1968): Video playlist - BBC Bitesize<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Brown v. Board of Education - Summary & Impact \| HISTORY | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ddeddfwriaeth yn y dyfodol. | Esboniwch bwysigrwydd y digwyddiadau hyn i gynnydd yn y dyfodol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch arwyddocâd y datblygiadau hyn. | | |
| • cyfraniad ac effaith gweithredwyr hawliau sifil, gan gynnwys:<br>• Martin Luther King Jr a Malcolm X; boicotio bysiau a phrotestiadau eistedd<br>• hynt ac effaith deddfwriaeth hawliau sifil. | Yr anghytuno rhwng gweithredwyr arweiniol dros nodau a dulliau ac effaith protestiadau mawr.<br><br>Pwysigrwydd grym Arlywyddol - Kennedy - LBJ a thelerau'r Deddfau Hawliau Dynol a Phleidleisio. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch siart yn dangos y rôl a chwaraeir gan y prif ffigurau (gan gynnwys arlywyddion).<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y digwyddiadau allweddol a pham yr oedd anghytuno rhwng ffigurau arweiniol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch bwysigrwydd cymharol rôl y prif ffigyrau yn natblygiad Hawliau Dynol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd prif ffigyrau gan ddefnyddio enghreifftiau o ddigwyddiadau/datblygiadau penodol. | **Fideo(s):**<br>The Civil Rights Movement<br><br>I Have a Dream speech by Martin Luther King .Jr<br><br>**Gwefan(nau):**<br>7 Major Protests of the Civil Rights Movement<br><br>Voting Rights Act of 1965 - Definition, Summary & Significance \| HISTORY | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.6.5 Ail Don Ffeministiaeth tua 1960 - tua 1980 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • agweddau tuag at rôl a statws menywod yn yr 1950au a dechrau'r 1960au, gan gynnwys:<br>• hyd a lled y dychwelyd i rolau a gwerthoedd traddodiadol yn dilyn yr Ail Ryfel Byd<br>• arwyddocâd ffilm a theledu wrth ddiffinio rôl y fam a gwraig tŷ. | Y gwahaniaethau rhwng ton gyntaf ac ail don ffeministiaeth<br><br>Rôl menywod Americanwyr Affricanaidd yn ail don ffeministiaeth, fel Florynce Kennedy.<br><br>Bywyd cartref dan bwysau yn y 1950au - cyflogaeth - modelau rôl yn y cyfryngau yn enwedig mewn ffilm a theledu. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser o brif ddatblygiadau'r Ail Don.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall prif syniadau'r Ail Don a pham y cododd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch bwysigrwydd cymharol y ffactorau a gyfrannodd at ddatblygiad yr Ail Don.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd y "Don Gyntaf" a "normalrwydd" ar ôl y rhyfel. | **Fideo(s):**<br>Origins of Second-Wave Feminism with Linda Gordon<br><br>A Moment in Black History: Flo Kennedy<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Feminism: The Second Wave - National Women's History Museum | 1.5 awr |
| • cyfraniad ac effaith awduron a gweithredwyr ffeministaidd, gan gynnwys:<br>• Betty Friedan, Gloria Steinem a Martha Lear<br>• ymgyrchoedd Sefydliad Cenedlaethol y Merched (NOW). | Effaith "Dirgelion Benywaidd" Friedan yn 1963.<br><br>Effaith Erthygl 1968 Lear yn y New York Times Magazine. | **Gweithgaredd:**<br>Ymchwiliwch i gyfraniadau Betty Friedan, Gloria Steinem a Martha Lear at ail don ffeministiaeth a rhestrwch nhw.<br><br>Disgrifiwch y rhesymau dros ymgyrchoedd allweddol Sefydliad Cenedlaethol y Menywod (NOW). | **Fideo(s):**<br>Women's History: "What is "second-wave" feminism?"<br><br>Second Wave Feminism: The Equal Rights Amendment and Phyllis Schlafly - Retro Report | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Grwpiau gweithredwyr Steinem fel yr NWPC a'r WAA.<br><br>"Streic Menywod dros Gydraddoldeb" yn 1970.<br><br>Sefydlu NOW yn 1966 - cwmpas ei nodau a'i effaith. | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall rolau gwahanol gweithredwyr benywaidd arweiniol, a'r rhesymau dros ymgyrchoedd y NOW.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch ddiagram corryn manwl yn dangos nodau ac effeithiau amrywiol y NOW.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch arwyddocâd a phwysigrwydd y NOW. | One of America's great feminists: Betty Friedan - CBC<br><br>Gloria Steinem on the history of Ms. Magazine<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Highlights \| National Organization for Women | |
| • yr effaith ar ddeddfwriaeth hawliau menywod i gydraddoldeb a dyfarniadau'r Goruchaf Lys, gan gynnwys:<br>  • Deddf Cyflog Cyfartal 1963, Deddf Hawliau Sifil (Teitl VII) 1964 a Deddfau Addysg 1972 a 1974<br>  • Reed vs Reed 1971 a Roe vs Wade 1973. | Telerau'r ddeddfwriaeth allweddol - effaith a gwrthwynebiad.<br><br>Arwyddocâd Reed v. Reed.<br><br>Y cefndir i Ddyfarniad Roe v. Wade - ei effaith a'r materion dadleuol. | **Gweithgaredd:**<br>Rhestrwch y prif ddatblygiadau a rhowch esboniad byr o'u pwysigrwydd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall telerau'r brif ddeddfwriaeth a'r dyfarniadau a wellodd hawliau menywod.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch effeithiau gwahanol y ddeddfwriaeth a Dyfarniadau'r Goruchaf Lys.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd cymharol datblygiad a dangos pam y cododd materion dadleuol mewn ymateb i hynny. | **Fideo(s):**<br>From Women's Suffrage to the ERA \| Retro Report \| PBS LearningMedia<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Equal Pay Act<br><br>Reed v. Reed 1971 \| Encyclopedia.com<br><br>Roe v. Wade: Decision, Summary & Background \| HISTORY | 2.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Great Debates \| National Museum of American History (si.edu)<br><br>Taith Rhithrealiti y National Civil Rights Museum |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Arweiniwch ddysgwyr drwy brofiadau Americanwyr Affricanaidd yr effeithiodd Cyfreithiau Jim Crow arnynt |
| gweithio ar y cyd | Mae cyfleoedd i ymgorffori cyfleoedd i gydweithio ym mhob rhan o'r uned hon. Awgrymir enghreifftiau yn y Cynllun dysgu wrth archwilio profiadau mudwyr yn 3.6.1 ac effaith yr Ail Ryfel Byd yn 3.6.4. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorfforri elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | |
|---|---|
| Themâu sy'n trawstorri | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae **Uned 3** yn rhoi chwe phwnc hanesyddol gwahanol sy'n ymwneud â hanes y byd i ganolfannau. Mae'r pynciau dewisol yn rhoi cyfleoedd i wella dealltwriaeth dysgwyr o'r byd a phrofiadau amrywiol y bobl. Mae'r opsiynau yn golygu y gellir astudio rhanbarthau a ymyleiddiwyd o'r byd, hanes pobloedd a ddisodlwyd a theyrnasoedd a anghofiwyd, yn enwedig gwledydd deheuol y byd.<br><br>Mae Opsiwn 3.6 Newidiadau yng Nghymdeithas yr Unol Daleithiau tua 1880 - tua 1980 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio hanes modern cynnar yng Ngogledd America. Yn y cyfnod hwn, gwelwyd datblygiadau arwyddocaol mewn cydraddoldeb hiliol yn yr Unol Daleithiau, gan ganolbwyntio ar sut y cafodd gwahaniaethu ac anoddefedd hiliol eu hwynebu a'u trech a graddau'r gwrthwynebiad i gynnydd. Mae'n cwmpasu difeddiannu Pobloedd Frodorol o'u tiriogaeth a'r ymdrech fwriadol i ddileu eu treftadaeth ddiwylliannol yn ogystal ag ymdrechion i wneud iawn. Caiff profiad cymunedau mewnfudwyr ei gwmpasu hefyd. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Mae'r Uned yn benodol yn cwmpasu'r mudiad Hawliau Sifil yn yr Unol Daleithiau a brwydr Americanwyr Affricanaidd i gael cydraddoldeb cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. Mae'n cwmpasu datblygiadau diwylliannol - cadarnhaol a negyddol - ym mhrofiadau Americanwyr Affricanaidd a Phobloedd Frodorol (y cyfeiriwyd atynt mewn dogfennau deddfwriaeth ac adnoddau fel “Americanwyr Brodorol” neu “Americanwyr Indiaidd”. Mae'r uned hefyd yn canolbwyntio ar hawliau menywod. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y cwricwlwm, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o'r ffordd y gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td>Gwrando</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion.</td></tr>
<tr><td>Darllen</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer diben.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad.<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Cânt gyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Ceir cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Ceir cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| Sgiliau Cyfannol | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU [Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a diben.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.<br><br>**Enghraifft**<br><br>• Bydd dysgwyr yn cael eu cyfleoedd i gynllunio a strwythuro ymatebion i gwestiynau y mae angen ymatebion estynedig iddynt. |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg.<br><br>**Enghraifft/enghreifftiau**<br><br>• Bydd dysgu am bynciau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 3.6 Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau, tua 1880 - tua 1980

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Cymathiad | Integreiddio grŵp penodol i mewn i un mwy fel bod natur nodedig y grŵp gwreiddiol yn cael ei golli. |
| Ffederal | System lywodraethu lle mae gan lywodraeth ganolog rymoedd penodol a chyfyngedig, a lle mae gan ardaloedd penodol (e.e. taleithiau, yn yr achos hwn) awdurdod eang i weinyddu eu materion eu hunain. |
| Laissez-faire | System - sy'n ymwneud yn benodol â materion economaidd - lle mai prin yw rheolaeth y llywodraeth, os o gwbl. |
| Diffynnaeth | System economaidd lle caiff mewnforion eu trethu neu lle ceir cyfyngiadau neu waharddiadau llwyr er mwyn sicrhau buddiannau i gynhyrchwyr domestig. |
| Tariffau | Trethi a godir ar fewnforion sy'n dod i mewn i wlad, neu, mewn rhai achosion, allforion sy'n gadael gwlad. |
| Senoffobia | Gelyniaeth eithafol tuag at wledydd a chenhedloedd eraill. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025